OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 713

## Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

## RHAN 2

Sefydlu Tribiwnlys Prisio Cymru

### Cynrychiolwyr rhanbarthol y Tribiwnlys Prisio

**13.**—(1) Rhaid gwneud y penodiadau cyntaf i'r swyddi cynrychiolydd rhanbarthol a dirprwy gynrychiolydd rhanbarthol (a elwir yn "gynrychiolydd rhanbarthol" yn y rheoliad hwn) yn unol â Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn ddarostyngedig i Ran 2 o'r Atodlen honno.

(2) Mewn achosion dilynol pan â swydd cynrychiolydd rhanbarthol yn wag, rhaid i aelodau'r Tribiwnlys Prisio, yn unol â Rhan 1 o Atodlen 2, benodi cynrychiolydd rhanbarthol neu ddirprwy gynrychiolydd rhanbarthol (yn ôl fel y digwydd) ar gyfer y rhanbarth hwnnw, o blith eu nifer.

(3) Ar ddiwedd y cyfnod rhagnodedig, os na fydd etholiad wedi ei gynnal yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, benodi'r nifer priodol o aelodau i fod yn gynrychiolwyr rhanbarthol.

(4) Bydd cynrychiolydd rhanbarthol a benodir dan y rheoliad hwn yn dal y swydd hyd nes digwydd pa un bynnag o'r canlynol sy'n digwydd gyntaf—

(a) diwedd y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dilyn y dyddiad yr ymgymerodd y cynrychiolydd rhanbarthol â'i swydd (ac at ddibenion y paragraff hwn, rhaid ystyried bod yr apwynteion cyntaf i swydd cynrychiolydd rhanbarthol yn ymgymryd â'u swyddi ar 1 Gorffennaf 2010);

(b) y cynrychiolydd rhanbarthol yn peidio â bod yn aelod o'r Tribiwnlys Prisio;

(c) y cynrychiolydd rhanbarthol yn ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd;

(ch) hysbysiad terfynu o dan baragraff (5) yn cael effaith.

(5) O ran y Llywydd—

(a) caiff, ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Llywodraethu, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i gynrychiolydd rhanbarthol, derfynu swydd y cynrychiolydd rhanbarthol hwnnw; a

(b) rhaid iddo, os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, roi i gynrychiolydd rhanbarthol hysbysiad ysgrifenedig sy'n terfynu swydd y cynrychiolydd rhanbarthol hwnnw, a bydd yr hysbysiad yn cael effaith ar ddiwedd pa bynnag gyfnod y cyfarwyddir felly.

(6) Cyn rhoi cyfarwyddyd dan baragraff (5)(b) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Llywydd.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "y cyfnod rhagnodedig" ("*the prescribed period*") yw tri mis sy'n cychwyn gydag 1 Ebrill 2010 ac wedi hynny, tri mis sy'n cychwyn gyda'r dyddiad pan â swydd cynrychiolydd rhanbarthol yn wag; ac

ystyr "y nifer priodol" ("*the appropriate number*"), yn achos cynrychiolwyr rhanbarthol, yw pedwar llai'r nifer o bersonau sydd, ar y pryd, yn dal swydd fel y cyfryw; ac yn achos dirprwy gynrychiolwyr rhanbarthol, pedwar llai'r nifer o bersonau sydd, ar y pryd, yn dal swydd fel y cyfryw.

(8) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) mae pedair rhanbarth;

(b) mae'r rhanbarthau yn cynnwys yr ardaloedd a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 1; ac

(c) caiff y rhanbarthau eu hadnabod gan yr enw cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Atodlen hwnnw.